BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (GER Y TRALLWNG, POWYS) (CYFYNGIAD A GWAHARDDIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2010

HYSBYSIR DRWY HYN bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffordd a'r gweithlu tra ymgymerir ag adeiladu troetffordd ar Gefnffordd Amwythig – Dolgellau (A458) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") ger y Trallwng yn Sir Powys.

Disgwylir y daw'r cyfyngiad a'r gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol ar eu cyfer, i rym am 08:00 o'r gloch ar 22 Chwefror 2010 ac y byddant yn parhau mewn grym tan 16:00 o'r gloch ar 26 Mawrth 2010 neu hyd nes symudir ymaith yr arwyddion traffig dros dro. Os digwydd llifogydd ar gefnffordd yr A483, a bod angen yr A458 fel llwybr dargyfeiriol, atelir y gwaith ac ailagorir yr A458.

Effaith y Gorchymyn, a fydd yn parhau am 18 mis fan hwyaf, fydd gwneud y canlynol dros dro:

i. cau'r gerbytffordd tua'r dwyrain yn y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn;

ii. caniatáu i draffig tua'r dwyrain fynd ar hyd y gerbytffordd tua'r gorllewin yn y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn;

iii. gwahardd traffig tua'r gorllewin, ac eithrio'r cerbydau hynny a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, rhag mynd ar hyd y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Pennir y llwybr amgen yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn;

iv. gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar hyd y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn;

v. gwahardd pob cerbyd rhag goddiweddyd ar y gerbytffordd tua'r gorllewin yn y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/Is-Ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchmynion Traffig Dros Dro/2010).

M D BURNELL
Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth

### YR ATODLENNI
### ATODLEN 1

Y darn o gefnffordd yr A458 ger y Trallwng yn Sir Powys, sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A483 yng Nghylchfan Tal-y-bont hyd at ei chyffordd â'r B4388.

### ATODLEN 2

Llwybr amgen i gerbydau tua'r gorllewin.

Yng nghyffordd yr A458 â'r B4388, dylai traffig sy'n teithio i gyfeiriad y gorllewin ddilyn y B4388 hyd at Tre'r-llai, ac yna dilyn y B4381 i gyfeiriad y Trallwng, gan ymuno â chefnffordd yr A483 yng Nghylchfan yr Orsaf.

**GELLIR CAEL COPI PRINT BRAS O'R HYSBYSIAD HWN ODDI WRTH YR IS-ADRAN CYNLLUNIO A LLYWODRAETHU TRAFNIDIAETH 3, LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU, PARC CATHAYS, CAERDYDD CF10 3NQ.**

## THE A458 TRUNK ROAD (NEAR WELSHPOOL, POWYS) (TEMPORARY TRAFFIC RESTRICTION & PROHIBITIONS) ORDER 2010

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is necessary to ensure the safety of road users and the workforce during the construction of a footway on the Shrewsbury – Dolgellau Trunk Road (A458) (hereinafter referred to as "the trunk road") near Welshpool in the County of Powys.

It is expected that the restriction and prohibitions, which will be signed accordingly, will come into force at 08:00 hours on 22 February 2010 and will remain in operation until 16:00 hours on 26 March 2010 or until the temporary traffic signs have been removed. If flooding occurs on the A483 trunk road and the A458 is needed as a diversionary route, the works will be suspended and the A458 will be reopened.

The effect of the Order, which has a maximum duration of 18 months, is to temporarily:

i. close the eastbound carriageway of the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice;

ii. permit eastbound traffic to proceed in the westbound carriageway of the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice;

iii. prohibit westbound traffic, other than those vehicles being used by the emergency services, from proceeding in the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative route will be as specified in Schedule 2 to this Notice;

iv. impose a 40 mph speed limit on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice;

v. prohibit all vehicles from overtaking in the westbound carriageway of the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Assembly Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2010).

M D BURNELL
Transport Planning and Governance Division

### SCHEDULES
### SCHEDULE 1

That length of the A458 Trunk Road near Welshpool in the County of Powys that extends from its junction with the A483 at Buttington Roundabout to its junction with the B4388.

### SCHEDULE 2

Alternative route for westbound vehicles.

At the junction of the A458 with the B4388, westbound traffic should follow the B4388 southbound to Leighton, then take the B4381 towards Welshpool to join the A483 trunk road at Station Roundabout.

**A COPY OF THIS NOTICE IN LARGER PRINT CAN BE OBTAINED FROM TRANSPORT PLANNING AND GOVERNANCE DIVISION 3, WELSH ASSEMBLY GOVERNMENT, CATHAYS PARK, CARDIFF CF10 3NQ.**